**Tasg 2**

# Digwyddiad arbennig

Cynlluniwch ddigwyddiad arbennig yn yr ysgol i ddathlu Dydd Hapusrwydd Rhyngwladol.

Meddyliwch am syniadau yn gyntaf – beth allech chi ei wneud?

Mewn grŵp:

1. Trafodwch y syniadau a dewiswch yr un gorau.

2. Trafodwch y manylion, e.e. beth yn union fydd yn digwydd, pwy fydd yn gwneud beth, ac ati.
   Mae help i chi ar y dudalen nesaf.

Ar ôl trafod:

3. Bydd pob grŵp yn paratoi cyflwyniad am ei syniad.
   Rhaid i bawb yn y grŵp gyfrannu a siarad.
   Rhaid i aelodau pob grŵp geisio perswadio'r gwrandawyr mai eu syniad nhw yw'r un gorau.

4. Ar ôl gwrando ar bob cyflwyniad, pleidleisiwch dros y syniad gorau.

5. Gwnewch daflen i sôn am eich digwyddiad chi.
   Cofiwch gynnwys yr holl fanylion am y digwyddiad.
   Chwiliwch am luniau addas yn ogystal.

# DYDD HAPUSRWYDD HAPUS I CHI!

